



Canolfan Ddata Menai – Gwybodaeth Allweddol

Mae Canolfan Ddata Menai yn fuddsoddiad yn nyfodol Gogledd Cymru, gan adfywio ffatri Ferodo a'r tir cyfagos a sicrhau dyfodol y safle fel canolfan bwysig ar gyfer diwydiant ac arloesi.

Rydym yn ymwybodol bod sylwadau cynyddol wedi ymddangos yn y wasg ers i'r Datganiad Amgylcheddol gael ei gyhoeddi, ac mae amryw o safbwyntiau wedi'u rhannu ar-lein ac o fewn y gymuned. Mae'n briodol bod prosiect o'r raddfa hon yn cael ei drafod yn agored ac rydym yn awyddus i sicrhau bod y drafodaeth yn seiliedig ar wybodaeth gywir am yr hyn a gynigir, canfyddiadau'r Datganiad Amgylcheddol, a'r ymrwymïadau yr ydym yn eu gwneud.

Rydym wedi nodi rhai ffeithiau allweddol isod i gyfateb ag adrannau o'r cais cynllunio lle codwyd y rhan fwyaf o gwestiynau ac ymholiadau.

Sŵn

Mae canolfannau data ymhlith y mathau tawelaf o ddatblygiadau diwydiannol heb unrhyw beiriannau trwm, symudiadau lorïau HGV niferus, na phrosesau cynhyrchu. Mae sŵn gweithredol yn sylweddol is na gweithgynhyrchu neu ddefnyddiau diwydiannol eraill ar safle fel hwn.

Mae asesiad effaith sŵn wedi'i gynnal sy'n dilyn safonau cenedlaethol gan gynnwys arolwg llinell sylfaen. Mae mesurau lliniaru wedi'u cynllunio i leihau unrhyw sŵn lefel isel o'r gwaith.

Cynhaliwyd arolwg llinell sylfaen ym mhedwar lleoliad agosaf derbynyddion sensitif (sy'n eiddo preswyl).

Mae Pennod 9.4 o'r Datganiad Amgylcheddol yn manylu ar y Mesurau Lliniaru yr ydym wedi'u mabwysiadu ar gyfer y prosiect i leihau effeithiau sŵn andwyol posibl. I grynhoi, mae'r rhain yn cynnwys:

- Mabwysiadu'r Technegau Gorau sydd ar Gael (BAT) i reoli a lleihau sŵn yn ystod y gwaith adeiladu, yn unol â'r canllawiau a nodir yn BS5228
- Sefydlwyd terfynau sŵn safle-benodol gan gyfeirio at lefelau gwaelodlin a sain wedi'u mesur ar y lleoliadau sy'n sensitif i sŵn

- Bydd unrhyw waith mecanyddol a osodir ar y to yn cael ei amgáu â deunydd acwstig pwrpasol, gan ostwng y sain o 30dB.
- Lleihau cyflymder ffaniau yn ystod y nos
- Bydd mesurau lliniaru pellach yn cael eu hystyried yn y Cam Dylunio Manwl (Cais Materion sydd wedi'u Cadw'n Ôl) yn cynnwys:
 - ☐ Lleoli offer ar y pellteroedd mwyaf oddi wrth leoliadau sy'n sensitif i sŵn
 - ☐ Dewis opsiynau offer sŵn isel
 - ☐ Sgrinio ychwanegol a allai gynnwys rhwystrau acwstig
- Nid yw'r ystyriaethau 'mesurau lliniaru pellach' wedi'u cynnwys yn yr asesiad cyfredol, a hyd yn oed heb y mesurau pellach, mae'r asesiad cyffredinol yn cadarnhau mai bach iawn fyddai'r effaith.

Edrychwch ar Bennod 9 o'r Datganiad Amgylcheddol i gael rhagor o wybodaeth



Dŵr

Rydym yn ail-gadarnhau na fydd y ganolfan ddata yn tynnu dŵr o Afon Menai. Rydym hefyd yn ail-gadarnhau mai'r unig ddŵr a ollyngir o'r safle i Afon Menai fydd dŵr wyneb heb ei halogi (dŵr glaw) a gesglir trwy system ddraenio tir y safle.

Yn unol â'n dogfen Cwestiynau Cyffredin a rannwyd yn flaenorol, rydym hefyd yn cadarnhau y bydd system ddŵr dolen gaeedig yn cael ei defnyddio - un o'r ffyrdd mwyaf effeithlon o oeri canolfan ddata. Mae rhai o'r ffigurau uchel iawn ar gyfer defnydd dŵr (c. 12 miliwn litr y dydd) sydd wedi'u dyfynnu yn y wasg yn dod o ran o'n datganiad amgylcheddol lle'r oedd yn ofynnol i ni asesu senario gwaethaf rhesymol o ystyried yr holl ddulliau oeri sydd ar gael.

Mae'r ffigur 12 miliwn hwn yn cynrychioli amcangyfrif sy'n seiliedig ar ddefnyddio technoleg oeri anweddol yr ydym yn cadarnhau na fyddwn yn ei defnyddio. Y ffigwr a amcangyfrifir o ddefnydd dyddiol o ddŵr ar gyfer y system dolen gaeedig y byddwn yn ei defnyddio yn lle hynny yw 700,000 litr y dydd - yn debyg i gyfleuster gweithgynhyrchu bwyd neu westy mawr.

Yn ogystal â hyn, mae'n bwysig pwysleisio, hyd nes y bydd gan ymgeiswyr ganiatâd cynllunio llawn, na ellir gwneud ceisiadau ar wahân am gyflenwad dŵr penodol. Cadarnhaodd Dŵr Cymru Welsh Water y gellir defnyddio'r prif gyflenwad 12" presennol fel cysylltiad, yn amodol ar ofynion capasiti.

Edrychwch ar Bennod 7 o'r Datganiad Amgylcheddol i gael rhagor o wybodaeth am ddŵr.



Pŵer

Bydd y prosiect hwn yn cysylltu â'r system Drawsyrru Genedlaethol - traffyrdd y system drydan yng Nghymru. Nid ydym yn cysylltu â'r system ddosbarthu leol (SPEN), felly nid oes unrhyw effaith ar y rhwydwaith dosbarthu trydan lleol ar gyfer cartrefi a busnesau. Bydd y ganolfan ddata yn cael ei phweru gan gysylltiad grid o'r is-orsaf ym Mhentir trwy geblau tanddaear yn hytrach na pheilonau uwchben.

Mae Gogledd Cymru'n cynhyrchu llawer iawn o drydan carbon isel, yn enwedig gwynt ar y môr, ond ni ellir defnyddio'r rhan fwyaf ohono yng Nghymru oherwydd diffyg galw. Y canlyniad yw bod mwy na 3 GW yn cael ei allforio i Loegr bob dydd. Erbyn 2030, bydd y ffigwr hwn yn codi i dros 5 GW, a bydd angen uwchraddio'r peilonau a'r cylchedau sy'n cludo'r pŵer hwn i Loegr.



Ansawdd Aer

Rydym yn cadarnhau y bydd mesurau cadarn yn cael eu cymryd i leihau unrhyw effaith ar ansawdd aer. Tra mae'r safle'n weithredol, mae modelu yn dangos bod allyriadau o generaduron wrth gefn yn arwain at effeithiau bach iawn ar ansawdd aer, a bod lefelau sy'n uwch na'r trothwyon ansawdd aer yn cael eu hystyried yn annhebygol iawn, heb unrhyw effeithiau sylweddol wedi'u nodi ar gyfer tai neu ecoleg. Mae mesurau dylunio sydd wedi'u hymgorffori a rheolaethau rheoleiddiol yn sicrhau ymhellach fod allyriadau gweithredol yn parhau i fod o fewn terfynau derbyniol.

Gyda mesurau lliniaru ar waith, rhagwelir y bydd effeithiau gweddilliol yn fach iawn i isel, gan gadarnhau na fydd y datblygiad yn arwain at effeithiau annerbyniol ar ansawdd aer ac mae'n cyd-fynd â gofynion polisi amgylcheddol perthnasol.

Edrychwch ar Bennod 8 o'r Datganiad Amgylcheddol i gael rhagor o wybodaeth neu dudalen 28 o'r 'Datganiad Amlinellol Ynni a Chynaliadwyedd'.

Trwy gysylltu Canolfan Ddata Menai yng Ngogledd Cymru, gall gael ei bweru gan y trydan carbon isel hwn a lleihau'r angen am uwchraddio'r system drawsyrru yn ogystal ag atal cwtogi taliadau i'r ffermydd gwynt.

Ar hyn o bryd, mae ffermydd gwynt yn cael eu talu i gau pan nad yw'r rhwydwaith trawsyrru yn gallu cludo pŵer dros ben i Loegr, ac mae'r costau hyn yn cael eu talu trwy filiau ynni pawb. Gall defnyddiwr trydan mawr sy'n gallu defnyddio llawer o'r pŵer adnewyddadwy hwn a fyddai fel arall yn mynd i wastraff helpu i leihau'r costau hyn i'r defnyddiwr. Mae hefyd yn golygu bod ynni a gynhyrchir yng Nghymru yn aros yng Nghymru, gan gefnogi seilwaith Cymru a chyfrannu at uchelgeisiau sero net Cymru ei hun.



Effaith Weledol

Rydym wedi cyflwyno Cod Dylunio sy'n rheoli egwyddorion dyluniad yr adeilad i liniaru'r effaith weledol gymaint â phosibl.

Mae'r Cod Dylunio hwn yn cynnwys cynigion cychwynnol ar gyfer ffasâd gan benseiri proffesiynol - gweler isod.

O ran goleuadau, daeth ein hasesiad goleuadau annibynnol a gynhwyswyd yn y Datganiad Amgylcheddol i'r casgliadau canlynol:

"Mae'r asesiad hwn wedi ystyried effeithiau goleuadau ar y derbynyddion preswyl, ecolegol ac awyr dywyll o'i amgylch yn seiliedig ar gynllun goleuadau enghreifftiol a ddatblygwyd i'r Safonau Prydeinig perthnasol a chanllawiau goleuadau proffesiynol. Nid yw'r dyluniad goleuadau enghreifftiol yn effeithio ar unrhyw un o'r derbynyddion."

Edrychwch ar yr Adroddiad Dylunio ac Asesu Goleuadau a baratowyd gan Ridge sydd wedi'i gynnwys yn ein Datganiadau Amgylcheddol.

Mae rhagor o wybodaeth am yr effaith weledol hefyd ar gael ym Mhennod 12 o'r Datganiad Amgylcheddol.




Figure 16: Illustrative examples of conventional architectural systems used to reduce the apparent scale of large technical buildings through roof modulation, articulated façades and integrated plant screening.



Manteision Economaidd a Chytundebau Adran 106

Mae ein hasesiad effaith economaidd annibynnol, yr ydym hefyd wedi'i drafod a'i rannu gyda Choleg Menai a Phrifysgol Bangor, yn cyflwyno amcangyfrif ceidwadol ar gyfer nifer y swyddi y byddai'r prosiect yn eu creu i drigolion Cymru dros gyfnod adeiladu 6 blynedd. Mae'r ffigur hwn o 915 o swyddi'r flwyddyn yn ystyried elfen o ddiffyg ar gyfer rhai rolau arbenigol iawn y gallai fod yn rhaid eu llenwi gan weithwyr proffesiynol sy'n teithio i mewn o'r tu allan i'r rhanbarth.

Mae amcangyfrif yr un mor geidwadol o 200 o swyddi gweithredol parhaol hefyd wedi'i rannu ond, unwaith eto, mae hyn yn cynrychioli isafswm trothwy yn hytrach nag amcangyfrif rhy uchelgeisiol. Yn syml, fel y mae'r ffigurau hyn yn adlewyrchu, mae'n bwysig iawn i ni nad ydym yn 'gwneud gormod o addewidion ac yn tangyflawni' ond yn hytrach yn cyfathrebu manteision economaidd realistig y prosiect hwn mewn ffordd agored a thryloyw.

Yn unol â'n Hasesiad o'r Effaith Economaidd, byddai'r datblygiad arfaethedig hefyd yn cyfrannu £2.1 miliwn mewn ardrethi busnes bob blwyddyn.

Yn dilyn yr ymgynghoriad cymunedol, fe wnaethom gynnwys rhagor o fanylion am gamau gwella ar gyfer camau adeiladu a gweithredol y prosiect, sef y dylid ymgymryd â Chynllun Cyflogaeth a Sgiliau (ESP). Byddai hyn yn cynnwys Cynllun Hyfforddi a Datblygu ar y cyd â rhanddeiliaid lleol. Byddai'r ESP yn nodi targedau i wella sgiliau a chyflogadwyedd lleol, megis drwy ddarparu prentisiaethau, lleoliadau profiad gwaith a chyfleoedd hyfforddi. Byddai hyn yn helpu i greu cyfleoedd ar gyfer uwchsgilio a hwyluso mynediad haws i bobl sy'n dychwelyd i'r gwaith.

Byddai ymrwymadau ffurfiol yn cael eu sicrhau drwy gytundeb Adran 106 yn ddiweddarach yn y broses gynllunio, unwaith y bydd Cyngor Gwynedd wedi ystyried priodoldeb pob rhwymedigaeth yn ôl ei rinweddau ei hun.

I gael rhagor o wybodaeth am fanteision economaidd, edrychwch ar Bennod 5 o'r Datganiad Amgylcheddol.

Ewch i'n gwefan i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect. www.canolfanddatamenai.com
Os oes gennych unrhyw gwestiynau, anfonwch e-bost at ein tîm prosiect info@canolfanddatamenai.com

www.canolfanddatamenai.com

